

# ADOLYGIADAU

**Blodau Gwyllt Cymru ac Ynysoedd Prydain** add. Bethan Wyn Jones 256 tud. Gwasg Carreg Gwalch £12.50

**Y**n ôl yr awdur 'Fyddai'r gyfrol hon ddim wedi gweld golau dydd oni bai am y rhaglen Galwad Cynnar ar Radio Cymru a'r Herald Cymraeg. Dechrau cyfrannu i'r rheiny wnaeth i mi fynd ati o ddifri i edrych yn fwy gofalus ar flodau gwyllt'.



## BLODAU GWYLLT Cymru ac Ynysoedd Prydain



Diolch am y cyfryngau, felly o'u herwydd, rydym wedi cael cyfrol arbennig iawn yma. Rwy wedi bod yn gweithio ym myd natur er dros ddeugain mlynedd ac wedi prynu sawl llyfr blodau Saesneg gan ychwanegu'r enwau Cymraeg atynt er mwyn i'r plant ddod yn gyfarwydd â'r enwau yn eu mamiaith. Bechod mawr yw na fyddai'r gyfrol wedi ei chyhoeddi chwarter canrif yn ôl! Ta waeth, mae hi yma heddiw ac i unrhyw un sydd â diddordeb ym mhlanhigion gwyllt ein gwlad, dyma'r gyfrol i chi. Mae'n cynnwys gwybodaeth am 240 o flodau mwyaf cyffredin Cymru, Ynysoedd Prydain, Iwerddon ac Ewrop.

Hefyd, ceir Ffeil Ffeithiau sy'n rhoi gwybodaeth gryno ac yn cynorthwyo adnabod blodyn yn gyflym a didrafferth. Mae pob cofnod yn cynnwys gwybodaeth ar faint a chynefin y blodau a'r misoedd y maent yn blodeuo. Ac i goroni hyn, mae llun lliw o bob blodyn, a chyfeiriadau at rywogaethau tebyg, ynghyd â gwybodaeth am ddsbarthiad y blodau. Mae llun ar bob un tudalen, sef 240 llun i gyd, gyda disgrifiad ohonynt, lle maen nhw'n tyfu, pa bryd, ac ati. Ceir grid yn dangos pa fisoedd o'r flwyddyn y maent yn

blodeuo a map ar waelod y dudalen yn dangos ym mhle maent yn ffynnu dros Ewrop. Ceir y Gymraeg, y Lladin, a'r Saesneg, yno. Ond trueni na fyddai yna restr Saesneg - Cymraeg yn y cefn, gan yn aml, er cywilydd i ni, rydym yn gwybod y gair Saesneg ond heb fod mor gyfarwydd â'r enw Cymraeg. Mae yna dudalen wag yn y cefn, a byddai wedi bod yn hawdd iawn ei chynnwys ar gyfer hyn.

Er hynny, dyma'r unig lyfr cynhwysfawr ar flodau gwyllt sydd wedi ymddangos yn y Gymraeg erioed, ac mae'n rhaid canmol yr awdur a'r wasg am fentro i gyhoeddi llyfr mor arbennig. Mae i fyny i chi, nawr, i'w phrynu a'i defnyddio. Dyma sy'n dangos llwyddiant cyfrol. Prynwch hi erbyn y Nadolig i'w rhoi yn anrheg yn barod ar gyfer y gwanwyn.

### Cyfres y Grefft


**Cwrw Cymru**, Lyn Ebenezer, Gwasg Carreg Gwalch 116 tud., pris £5.50

**M**ae'r gyfrol hon yn olrhain hanes bragu, o ddyddiau'r hen Eifftiaid a'r Derwyddon ymlaen. Medd, mae'n debyg, oedd y ddiod feddwol gyntaf, a bu medd yn rhan annatod o hanes Cymru o ddyddiau'r *Gododdin* ymlaen, drwy gyfnod y Tywysogion a'r neuaddau pan roedd rhywun yn werth ei fedd.

Caiff hanes bragu yng Nghymru ei olrhain o'r macsu, a fu unwaith yn rhan o waith pob fferm gwerth yr enw, ymlaen at fragdai preifat y tai mawr, ac yna'r bragdai diwyddiannol a'r angen am gwrw i oeri gyddfau gweithwyr dur a glo. Ac, wrth gwrs, y mudiad dirwest.

Codir ambell sgwarnog yma ac acw, er enghraifft, bwriad Arthur Guinness i sefydlu ei fragdy yng Nghymru, a'r honiad mai Cymro wnaeth ddyfeisio Guinness.

Yn ôl yr awdur 'Broliant Anthem Undeb y



*Tancwyr yw mai 'cwrw Cymru ydi'r cwrw gorau sydd'. A dyna chi fragdy Cic Mul Pobol y Cwm, a gaiff ei ffilmio mewn bragdy go iawn. Ceir hanes y bragdy lleiaf yn y byd ger Aberystwyth. A bragdy yng Nhwm Tawe sy'n bodoli er mwyn coffau'r canwr Buddy Holly. Bragdy Felinfoel, wedyn, a gychwynnodd y syniad o werthu cwrw mewn caniau, y cyntaf yn Ewrop i wneud hynny. A brwydr Aelod Seneddol i adfer Lager Wrecsam. Anodd credu heddiw mai'r mynachlogydd, ar un adeg, oedd prif fragdai Cymru.*

Syndod, efallai, yw sylweddoli mai pregethwr yr efengyl oedd y tu ôl i Fragdy Buckleys. Mae cwrw o'r enw Reverend James yn dal ar y farchnad. Ac ar un adeg, Wrecsam oedd tre fragdy bwysicaf Prydain. Roedd Bragdy Tomos Watkin yn garreg filltir bwysig yn hanes y bragdai bychain.

Ceir cyfeirad yn y llyfr at hanes wisgi, hefyd, at y distyllty cyntaf yng Nghymru, a'r unig un, tan y ddiweddar, oedd yr un a agorwyd ger y Bala yn 1889 pan gofrestrwyd y Cwmni Wisgi Cymreig gyda chyfalaf o £100,000. Y dyn tu ôl i'r fenter oedd R. J. Lloyd Price, *entrepreneur*, heliwr ac ecentrig a sgweiar Stâd y Rhiwlas. Ym mis Awst 1889, ymwelodd y Frenhines Fictoria â'r Bala gan letya yn Neuadd Pale. Cyflwynodd Lloyd Price gasgen o wisgi iddi gan roi iddo'i hun yr esgus i ychwanegu at froliant ei gynnyrch, 'Drwy Benodiad Brenhinol'. Yn 1893 cyflwynodd gasgen arall o wisgi i Dywysog Cymru drwy Gyfrinfa'r Bala o'r Seiri Rhyddion, lle'r oedd y sgweiar, ynghyd â Michael D. Jones, yn aelod. Yn anffodus, methiant fu'r fenter oherwydd ei ddiffyg ansawdd.

Bu'n rhaid disgwyl tan 2001 am wisgi wedi ei ddistyllu ar dir Cymru. Enwyd y Cwmni ar ôl y pentref ger Hirwaun sydd â chysylltiadau hanesyddol â Dic Penderyn, a grogwyd yn 1831.

Llyfryn hanes ydy'r gyfrol hon yn ei hanfod ac yn gyfrol gwerth ei darllen, ond gresyn, fodd bynnag, na chynhwyswyd mynegai yn y cefn.

### Cyfres y Grefft

**Cwrwgl**, J. Geraint Jenkins. Gwasg Carreg Gwalch 140 tud. £7

**A**r un adeg, roedd y cwrwgl - cwch ysgafn, di-gilbren, wedi'i orchuddio â chroen neu ledr - yn cael ei ddefnyddio'n eang ar holl afonydd Cymru. Gellir olrhain ei achau i'r cychod môr ac afon a ddisgrifiwyd gan Pliny, Cesar, ac awduron Rhufeinig eraill. Yn y gorffennol, pan oedd y cwrwgl yn gyffredin, roedd gan bob afon ei chynllun, ei harferion a'i thraddodiadau ei hun yn gysylltiedig â'r defnydd ohono ac roedd y rhain yn amrywio'n fawr.

Erbyn heddiw, mae'r cwrwgl wedi'i gyfyngu i dair afon yn ne-orllewin y wlad, lle caniateir eu defnyddio i bysgota'n gyfreithiol o hyd - afonydd Teifi, Tywi a Thaf. Arweiniodd brwdfrydedd nifer o bobl o Gymru, ac o'r ochr draw i'r Clawdd, yn y cwrwgl, at sefydlu Cymdeithas y Cwrwgl yn 1990. Llywydd anrhydeddus cyntaf y gymdeithas oedd Dr. J. Geraint Jenkins, awdur y gyfrol hon.